OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1372

# Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009

## RHAN 7

Darpariaethau arolygu, darpariaethau gorfodi a darpariaethau amrywiol

**Trwyddedau**

**33.**—(1) Rhaid i drwydded a roddir o dan y Rheoliadau hyn fod mewn ysgrifen a chaniateir —

(a) iddi fod yn gyffredinol neu'n benodol;

(b) iddi fod yn ddarostyngedig i amodau; ac

(c) ei diwygio, ei hatal neu ei dirymu mewn ysgrifen ar unrhyw bryd.

(2) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded benodol—

(a) cario'r drwydded neu gopi ohoni gydag ef bob amser yn ystod y symud, a

(b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd, neu swyddog arall i Weinidogion Cymru, dangos y drwydded neu'r copi a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohoni neu ohono gael ei gymryd,

a bydd methu â gwneud hynny yn dramgwydd.

(3) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded gyffredinol—

(a) cario gydag ef bob amser yn ystod y symud nodyn traddodi sy'n cynnwys manylion—

(i) am yr hyn sy'n cael ei gludo, gan gynnwys faint ohono,

(ii) dyddiad y symud,

(iii) enwau'r traddodwr a'r traddodai,

(iv) cyfeiriad y man y cychwynnodd y symud ohono a'r gyrchfan,

(b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd neu swyddog arall i Weinidogion Cymru, dangos y nodyn traddodi a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohono gael ei gymryd, ac

(c) cadw'r nodyn traddodi am o leiaf chwe mis,

a bydd methu â gwneud hynny yn dramgwydd.

(4) Bydd methu â chydymffurfio ag un o amodau unrhyw drwydded a roddir o dan y Rheoliadau hyn neu dorri un o'r amodau hynny'n dramgwydd.

(5) Os yw mochyn wedi'i symud i fangre o dan drwydded, caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y fangre yn y gyrchfan yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar symud ynghylch moch ar y fangre honno sy'n angenrheidiol i atal y risg o ledaenu feirws clefyd pothellog y moch, a bydd methu â chydymffurfio â hysbysiad o'r fath yn dramgwydd.

(6) Ac eithrio fel y cyfarwyddir fel arall gan Weinidogion Cymru, mae trwyddedau a roddwyd yn yr Alban neu Loegr ar gyfer gweithgareddau y gellid eu trwyddedu yng Nghymru o dan y Rheoliadau hyn yn cael effaith yng Nghymru fel petaent yn drwyddedau a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn, a bydd darpariaethau'r rheoliad hwn yn gymwys yn unol â hynny.